# LC1205

| ADRODDIAD GAN Y PWYLLGOR DEDDFAU | LEGISLATION COMMITTEE REPORT |
|---|---|

## Gorchymyn Deddf Addysg 2002 (Cychwyn Rhif 8) (Cymru) 2006

Mae darpariaethau Deddf Addysg 2002 a gychwynir gan y Gorchymyn hwn yn diwygio darpariaethau Deddf Safonau a Fframwaith Ysgolion 1998 o ran trefniadau derbyn i ysgolion a gynhelir.

Mae'r Gorchymyn hefyd yn cychwyn (yn weithredol o 1 Medi 2006) adran 175 o Ddeddf Addysg 2002. Mae'r adran hon yn gosod dyletswydd ar awdurdodau addysg lleol a chyrff llywodraethu ysgolion a gynhelir a sefydliadau addysg bellach mewn perthynas â lles plant.

### Rheol Sefydlog 11.7

Nid oes unrhyw bwyntiau wedi'u nodi i fod yn destun adroddiad o dan Reol Sefydlog 11.7.

## Sylwadau

Hysbyswyd y cyfreithiwr drafftio ynglyn â chyfeiriad anghywir at adran 175 o Ddeddf Addysg 2002 yn y Nodyn am Orchmynion Cychwyn Blaenorol sydd wedi'i gynnwys yn Nodyn Esboniadol y testun Cymraeg. Gellir cywiro hwn wrth gyhoeddi.

**David Melding AC**

Cadeirydd y Pwyllgor Deddfau

**24 Ionawr 2006**